**Cynllun Datblygu Ysgol: Crynodeb**

| Hunanwerthuso Ysgol: Trosolwg |
|---|
| **Cryfderau:**<br><br>• Gwaith clwstwr – cydweithio ar addysgeg, cwricwlwm a llesiant<br>• Continwwm ar gyfer cynllunio, asesu ac adrodd yn Llythrennedd, Rhifedd, Celfyddydau a Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>• Gwaith ein Swyddog Teuluol, Bugeiliol<br>• Gwaith y Swyddog ELSA<br>• Gweithdrefnau Diogelu cadarn<br>• Treialau Strategaethau Lles<br>• Cefnogaeth y swyddogion ymyraethau a'r amserlen<br>• Cyflawni strategaethau a chefnogaeth ar gyfer unigolion neu grwpiau o blant<br>• Dadansoddi data mewnol ar gyfer trefnu ymyraethau<br>• Defnyddio data profion cenedlaethol er mwyn darparu ymyrraeth<br>• Cyfarfodydd cynnydd tymhorol<br>• Cyfarpar uwchraddol o ansawdd uchel<br>• Cynigir amrywiaeth o gyfleoedd<br>• Cyd-weithio gyda swyddogion CCD ac ysgolion lleol ar gynlluniau cytun |
| **Meysydd i'w datblygu:**<br><br>• Parhau gyda gwaith Meddwlgarwch<br>• Parhau i ddarparu gwybodaeth a diweddariadau i staff ar weithdrefnau ADY<br>• Datblygu Continwwm ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a Dyniaethau<br>• Datblygu sgiliau darllen ymhellach<br>• Cydweithio ar hanfodion a strategaethau addysgu rhagorol |

| **GWERTHUSO CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2023 /2024** | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Gwerthusiad o'r cynnydd** |
| **Cwricwlwm i Gymru**<br><br>Cwblhau continiwm clwstwr o MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Iechyd a Lles a Dyniaethau<br><br>Asesu ac Asesu ar gyfer Dysgu – Gweithdrefnau a Dilyniant<br><br>Gwybodaeth i rieni<br><br>Parhau i firenio'r cwricwlwm | • Diwrnod asesu / cymedroli Ll&Ch/ M&Rh clystyrol i edrych ar safonau ar draws y clwstwr ac i fireinio'r continiwa yn ol y gofyn<br>**Effaith:** Cysondeb ar draws y clwstwr, sicrhau gweledigaeth gyson o sut mae CC3 yn edrych, gweledigaeth gwell gan arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd o'r hyn sy'n digwydd ar draws yr ysgol a'r clwstwr, rhannu arfer dda<br>**Ffordd ymlaen:** Parhau i weithredu'r diwrnodau yma ar gyfer y MDaPh i gyd yn flynyddol, ceisio cyd-blethu mewnbwn disgyblion i'r broses hefyd, ystyried cynnal diwrnodau ar gyfer yr ysgolion cynradd yn unig i gadarnhau cysondeb yn CC1&2 hefyd<br>• Cynhelir Bore Coffi Cwricwlwm am y Celfyddydau Mynegiannol a M&Rh yn ystod y flwyddyn er mwyn casglu syniadau a gwybodaeth o elfennau lleol i fwydo i'n cwricwlwm ysgol. **Effaith:** Rhoi cyfle i'n rhanddeiliaid i gyfrannu tuag at ein cwricwlwm ysgol. **Ffordd ymlaen**: Ymgorffori'r syniadau i mewn i'n cwricwlwm ysgol a sicrhau bod cyfleoedd eraill I'r rhieni i gyfrannu tuag at ein cwricwlwm ysgol<br>• Clwstwr Teulu Llan yn parhau i gydweithio yn effeithiol gyda'n gilydd wrth ddatblygu a mireinio ein cwricwlwm clwstwr. **Effaith**: Cysondeb ar draws y clwstwr wrth i ni fabwysiadu'r cwricwlwm newydd. **Ffordd ymlaen:** Parhau i gydweithio yn agos fel clwstwr er mwyn sicrhau cysondeb yn y profiadau erbyn y plant i gyrraedd Blwyddyn 7<br>• Continwa clystyrol Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi ei gwblhau ac yn barod i'w fabwysiadu ym Mis Medi. **Effaith**: Continwa Gwyddoniaeth a Thechnoleg clystyrol ar waith ym mhob ysgol yn ein clwstwr. **Ffordd Ymlaen**: Cwblhau continwa clwstwr Y Dyniaethau a Iechyd a Lles<br>• Rhieni wedi cael amrywiaeth o gyfleoedd yn ystod y flwyddyn i fod yn rhan o daith dysgu y plant. Nosweithiau rhieni, noson cwrdd a'r athro/athrawes, sesiynau sgiliau i helpu'r rhieni i helpu eu plant, a sesiynau dathlu llwyddiant ar ddiwedd y flwyddyn. **Effaith**: Rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ddilyn cynnydd eu plant yn ystod y flwyddyn. **Ffordd Ymlaen**: Parhau i gynnig cyfleoedd i rieni i fod yn rhan o daith dysgu eu plant yn ystod eu hamser ym Mro Ogwr |
| **Lles ac Hawliau Plant**<br><br>Cyflwyno Polisi a Chynllun Gwaith y Clwstwr ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb<br><br>Gwobr Ysgolion Iach newydd<br><br>Meddwlgarwch<br><br>Parhau i wreiddio gwaith Hawliau Plant | <u>Pontio</u>-'Train the Trainer'<br>• Wedi rhaedru negeseuon Safon Aur Cwm Taf i unigolion y clwstwr sy'n trefnu pontio cartref ysgol. **Effaith:** Cyfle buddiol i rannu gweithdrefnau ac arferion da. Trafod ac ystyried mireinio gweithdrefnau a chyflwyno ambell i beth newydd i'n hysgolion a'n teuluoedd. Bwriad: Cwrdd eto tymor nesaf i werthuso'r gweithdrefnau/gweithgareddau newydd. Cysondeb ymhlith ysgolion y clwstwr.<br>• Wedi creu llyfr Croeso i'r plentyn sy'n symud i Ysgol Bro Ogwr o ysgol arall. **Effaith**: Llyfryn cynhwysfawr sy'n trosglwyddo gwybodaeth sy'n berthnasol i'r disgybl. Disgyblion newydd i deimlo eu bod yn rhan o gymuned yr ysgol o'r cychwyn.<br>• Gweithio gyda'r Cyngor Ysgol i greu pecyn/ffilm i'r plentyn newydd. **Effaith**: Llais y plentyn er mwyn croesawi disgyblion newydd.<br><u>Do Be Mindful</u><br>• Bron pob aelod ymarferydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar lein. **Effaith**: Gwybodaeth a hyder er mwyn darparu sesiynau a chreu awyrgylch meddwlgarwch i'r disgyblion. **Ffordd ymlaen**: Monitro sesiynau meddwlgarwch ynghyd a Llais y disgybl.<br><u>Ysgolion Iach</u>: Ymarferwyr wedi llenwi holiadur. **Effaith**: Cyfrannu at y cynllun gweithredu a chasglu tystiolaeth tuag at y wobr. **Ffordd Ymlaen**; Holiaduron i rieni a disgyblion.<br><u>Hawliau Plant</u>:<br>• Cyfeirio at Hawliau Plant wrth drydaru. **Effaith**: Codi ymwybyddiaeth y gymuned ehangach. Cysondeb trwy''r ysgol. |
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol** | • Tîm staff ADY wedi'i ymsefydlu erbyn hyn. **Effaith** – staff yn gallu dod o hyd i wybodaeth addas yn hawdd, yn gallu dod o hyd i strategaethau er mwyn cefnogi'r disgyblion. |

| | |
|---|---|
| Mapio Darpariaeth<br><br>Parhau gyda'r paratoadau ar gyfer y Bil ADY<br><br>Diweddaru Polisi ADY y Sir | • Proffiliau Un Dudalen ar fformat newydd wedi'i ymsefydlu. **Effaith** – proffiliau newydd yn fwy manwl ac yn llawer fwy perthnasol, yn fwy gwybodus ar gyfer ategi at waith papur cyfeirio. |
| **Llythrennedd / Rhifedd / Cymhwysedd Digidol**<br>• Teithiau Dysgu a chwestiynu plant<br><br>**<u>Iaith a Llythrennedd</u>**<br><br>Ysgrifennu estynedig<br><br>Parhau gydag gweithgareddau llafar, drilio patrymau ac effaith llafar ar ysgrifennu.<br><br>Datblygu defnydd o'r adnodd DarllenCo.<br><br>**Mathemateg a Rhifedd**<br><br>Defnydd a dealltwriaeth ddyfnach o sgiliau a gwybodaeth. Herio a Chwestiynu. Monitro a gweithio gyda CCD<br><br>Hyfforddiant/Defnydd o drinolion/ardaloedd mathemateg.<br><br>Creu Mapiau cynnydd Mathemateg gyda CCD<br><br>**Cymhwysedd Digidol**<br><br>Digi 360°<br><br>Uwch sgilio sgiliau staff ar draws yr ysgol<br><br>Codio – Prif ffcows Hyfforddiant a Monitro<br><br>Parhau gyda Cwricwlwm Llythrennedd Digidol y Clwstwr<br><br>Datblygu gweithdrefnau a gwybodaeth pellach Diogelu ar-lein | **Llythrennedd**<br>• **Darllen Co**. **Effaith** – Wrth drafod gydag aelodau staff addysgu gwnaeth y rhan fwyaf cyfathrebu bod Darllen Co. yn effeithiol wrth ennyn diddordeb y disgyblion i ddarllen llyfrau Cymraeg. Roedd llawer yn defnyddio'r wefan yn bwrpasol ar gyfer tasgau amrywiol nid dim ond ar gyfer darllen a deall.<br>• **Hyfforddiant Pie Corbett - Effaith** – Roedd yr hyfforddiant Pie Corbett yn effeithiol iawn. O ganlyniad mae bron bob un gwnaeth derbyn hyfforddiant Pie Corbett wedi defnyddio'r strategaethau ar lawr y dosbarth yn dweud bod y strategaethau yn effeithiol iawn. Mae modd gwahaniaethau'n effeithiol, mae'r patrymau iaith o ansawdd gwych, mae'n dda iawn wrth godi safonau llafar, gwrando ac ysgrifennu. Roedd bron bob un medru ysgrifennu gyda mwy o ddyfalbarhad i ysgrifennu darn estynedig.<br>• **Craffu ar Lyfrau** - **Effaith** - Monitro ffurfiau a thrawsdoriad o lyfrau disgyblion PYDd, Da, Canolig a Gwan Monitro gyda'r partner gwella<br>Mae craffu a monitro llyfrau'n gyson wedi arwain at godi safonau bron bob un. Gwelwyd tystiolaeth gan y rhan fwyaf o wahaniaethu clir, cyfleoedd i ymateb i adborth, a datblygiad amlwg rhwng pob blwyddyn. Hefyd bod nifer o dasgau priodol.<br>• **Darllen gyda darllenwyr 22/04 -Bl.1/2/3 a 4** - **Effaith –** Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddarllen a thrafod y llyfrau/ystyr geirfa ac idiomau, ond yn rhy gynnar i fesur gwir effaith.<br>• **Pecyn Drilio Iaith** – Hyfforddiant Swyddog CCD – **Effaith** - Teimlodd bron bob un aelod staff bod yr hyfforddiant yn fuddiol er mwyn gwella ac amrywio'r ffyrdd o gyflwyno'r patrymau trwy gemau ac yn teimlo'n fwy hyderus wrth wneud hyn. Serch hynny, wrth drafod gydag aelodau staff, teimlodd llawer bod e'n anodd i ddrilio'r patrymau'n gyson (3 gwaith yr wythnos) o ran amserlen ac i gadw at drefn y patrymau. Ar adegau roedd patrymau eraill o ddefnydd gwell yn dibynnu ar y dasg yr wythnos yna.<br><br>**Rhifedd**<br>• **Gweithio gyda Swyddog Rhifedd (CCD) i fapio sgiliau Mathemateg a Rhifedd ar draws yr ysgol.** Bydd hwn yn cael ei gyflwyno ym mis Medi – mae e wedi cymryd amser i sefydlu ac mae'r swyddog yn dychwelyd ym mis Gorffennaf i drefnu cynlluniau. **Effaith** – Bydd hwn yn rhoi syniad o drefn sgiliau er mwyn sicrhau llenwi bylchau a chynnydd ar draws y cam cynnydd.<br>• **Datblygu ardaloedd Mathemateg o amgylch yr ysgol gyda ystod o drinolion.** Staff addysgu wedi derbyn hyfforddiant nifer o drinolion wahanol addas ar gyfer pob oedran, mae stoc o bopeth wedi archebu a dosbarthu ac adnoddau mathemateg yn y stordy wedi sortio i feysydd wahanol.**Effaith -** Gellir gweld gwelliant yn llyfrau'r plant a defnydd o fodelu gyda'r trinolion. Roedd bron pob un o'r dysgwyr wedi son bod nhw'n gyfarwydd a ddefnyddio ac bod nhw ar gael yn y dosbarth.<br>• **Parhau i weithredu system cylchdroi.** Disgresiwn athro; ystyried – y sgil sy'n cael ei gyflwyno, a phryd maen briodol. **Effaith -** sicrhau dealltwriaeth gysyniadol a gwahaniaethu yn unol â hynny, cyfle i deilwra sesiynau ar gyfer anghenion unigol ac felly sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial. Bron pob un o'r plant yn cytuno bod hyn wedi bod yn gadarnhaol, maent yn deall y system ac yn hoffi'r cyfle i weithio'n annibynnol. O ganlyniad gall dysgwyr fod yn greadigol gan fod y model hwn yn gofyn iddynt chwarae, arbrofi, cymryd risgiau a bod yn hyblyg wrth fynd i'r afael â phroblemau mathemategol, gwelir canlyniadau asesiadau personol.Cyfle i ddefnyddio sgiliau mewn cyd-destun gan ganiatáu iddynt weld pwysigrwydd Mathemateg a bod yn rhifog.<br>• **Edrych ar ein system herio a chwestiynu – datblygu er mwyn asesu'r dysgu.** Amlygodd craffu ar lyfrau gyda chynghorydd her y maes hwn hefyd. Mae Swyddof |

| | |
|---|---|
| | CCD wedi cynnal sesiwn hyfforddi gyda staff, mae adnoddau wedi eu creu i ddatblygu dealltwriaeth a rhesymu yn arbennig ar gyfer y rhai ym mlynyddoedd 4 – 6. **Effaith** – anodd i fesur gan bod hwn yn hyfforddiant ddiweddar ond bydd y plant yn datblygu pob un o'r 5 hyfedredd, yn enwedig eu Dealltwriaeth Gysyniadol, Rhuglder, Rhesymeg Rhesymegol a Chymhwysedd Strategol eto gan roi'r cyfle iddynt arbrofi a mentro. Cymedroli clwstwr wedi nodi bod heriau a cwestiynu ni i weld yn edrych ar y 5 hyfedredd ac yn rhywbeth iddynt ystyried. Targed yma i barhau flwyddyn nesaf, lle bydd modd edrych yn fwy fanwl ar yr effaith.<br><br>**Cymhwysedd Digidol**<br>• **Monitro Gwaith.**Partner Gwella wedi cwrdd a thrafod gwaith gyda disgyblion Bl 3 hyd at Bl6. Partner Gwella yn bodlon ar safonau sgiliau'r disgyblion a'r ffordd trafodwyd eu gwaith.**Effaith** – Partner Gwella yn gosod barn a safonau. Beincnod cadarn wedi eu sefydlu i ddatblygu sgiliau a thrawsdoriad sgiliau ymhellach. Tystiolaeth fod disgyblion yn trafod eu gwaith yn effeithiol<br>• **Cefnogaeth CCD** Cyfarfod gyda Swyddog Datblygu CCD ar gyfer Dysgu Digidol CCD - wedi trafod gwaith Digidol gyda Disgyblion Bl 4 a 5. Swyddog CCD yn hapus gyda thrawsdoriad sgiliau a safonau gwaith Disgyblion wedi ymateb a thrafod yn effeithiol. Swyddog wedi trafod canlyniadau cyfarfodydd a thargedau argymhellwyd gan cyn-swyddogion cymorth CCD gyda RE. Wedi trafod llwyddiant gweithdrefnau sefydlwyd a nodi targedau posib i symyd y pwnc ymalaen.**Effaith** - Swyddog datblygu yn craffu ar waith ac yn gosod barn ar safonau. Cadarnhad ar beincnod safonau. Tystiolaeth o safonau disgyblion yn trafod eu Gwaith. Canlyniad y Monitro yn llywio ffordd ymlaen a thargedau datblygu i'r dyfodol. Canlyniadau llwyddianus i'w ychwanegu fel tystiolaeth i godi safonau o fewn Digi 360<br>• Cyfarfodydd Meysydd Dysgu a Phrofiad Clwstwr wedi cwblhau Continiwwm Gwyddoniaeth a Thechnoleg. **Effaith** – Continwwm wedi eu creu ac yn barod i Clwstwr Ysgolion y Clwstwr i ddilyn yn y flwyddyn i ddod. |
| **Cynllun Gwariant – Cau'r Bwlch**<br>Parhau i ddatblygu'r systemau ymyrraeth cadarn sy'n cael effaith ar berfformiad disgyblion a'r rhai sydd ganddynt anghenion penodol.<br>**Cynllun Gwariant Cau'r Bwlch GDD Blynyddoedd Cynnar**<br>I wella sgiliau sylfaenol llythrennedd y disgyblion dan 5. | Syrjeri Senco **Effaith –** achosion pryder yn cael eu trafod yn gyflymach, penderfynu ar weithred a'r ffordd ymlaen yn gyflymach.<br><br>Swyddogion Ymyraethau – amserlen o brofion ac ymyraethau ar gyfer y flwyddyn. **Effaith**: ymyraeth cryf ar draws yr ysgol sy'n ateb gofynion unigol a grwpiau o ddisgyblion |

**BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2024 /2025**

| Blaenoriaeth | Camau Gweithredu | Cymorth |
|---|---|---|
| **<u>Addysgeg</u>**<br><br>Dysgu ac Addysgu<br><br>Safonau<br><br>Continwa<br><br>Asesu | **Dysgu ac Addysgu Rhagorol**<br>• Cwrs Addysgu Rhagorol<br>• Hanfodion dysgu ac addysgu rhagorol i drafod fel staff gyfan:<br>❖ Ymrwymiad<br>❖ Brwdfrydedd<br>❖ Menter<br>❖ Annibyniaeth<br>❖ Cymhwysedd<br>❖ Rhannu Arfer<br>• Arsylwadau Sesiwn / Gwers – arsylwi ar ein gilydd yn addysgu a chynnal trafodaethau proffesiynol – dechrau o fewn ein camau cynnydd ac yna lledu ar draws yr ysgol<br>• Trafod egwyddorion gwers ardderchog<br>• Trafod beth sy'n gwneud athro / athrawes rhagorol<br><br>**Safonau**<br>• Arsylwadau gwersi wedi chysoni gyda Partner Gwella<br>• Trafod adborth Craffu ar lyfrau ar y cyd fel ysgol gyfan gyda'r llyfrau / tystiolaeth o'r Derbyn hyd at 6.<br>• Datblygu defnydd o'r slipiau marcio ym Mlynyddoedd 5 a 6.<br>• Parhau i gofnodi sgiliau a 'coverage' yn y ffeil asesu o flwyddyn i flwyddyn<br><br>**Continwa**<br>• parhau i gynnwys, datblygu a mireinio defnydd y continwa sydd yn barod<br>• gweithio ar y cyd fel clwstwr i orffen y 2 Maes sydd ar ôl<br><br>**Asesu**<br>• Mireinio a gwerthuso gwaelodlin newydd yn y Meithrin, ond rydyn ni hefyd yn asesu Saesneg ar ddechrau Bl.3 eleni er mwyn cael gwaelodlin Saesneg hefyd (gan nad oes unrhyw ddata cychwynnol ar hyn)<br>• Craffu ar lyfrau o'r Derbyn hyd at 6 a thrafod cynnydd ar draws yr ysgol<br>• Gwerthuso a monitro canllawiau asesu ac asesu ar gyfer dysgu | Arweinwyr Cwricwlwm yr ysgol<br><br>Partner Gwella CCD<br><br>Pwyllgor Cwricwlwm Clwstwr<br><br>Llywodraethwyr Cyswllt<br><br>Mynychu cyrsiau perthnasol |
| **<u>Lles a Chynhwysiant</u>**<br><br>Meddwlgarwch<br><br>ADY | **Meddwlgarwch**<br><br>Sefydlu a gwreiddio egwyddorion y rhaglen DoBeMindful ym mhob dosbarth:<br><br>• Sicrhau bod defnydd cyson o'r rhaglen ym mhob Dosbarth - Monitro sesiynau lles (AMR + LM i ymweld a dosbarthiadau yn ystod diwrnodau rheoli)<br>• Disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio'r strategaethau a deallusrwydd pam<br>• Hyrwyddo agweddau pellach o agweddau cadarn ac arferion ardderchog<br><br>**ADY a Chynhwysiant**<br><br>• Parhau i ymwreiddio'r systemau newydd ar draws yr ysgol. | Arweinwyr Lles a'r CADY<br><br>Rhaglen DoBeMindful<br><br>Llywodraethwyr Cyswllt<br><br>Pwyllgor Llesiant Cswstwr |

| | | |
|---|---|---|
| | • Parhau gydag a mireinio systemau ymyraethau’r ysgol. | |
| **<u>Fframweithiau</u>**<br><br>Llythrennedd<br><br>Rhifedd<br><br>Cymhwysedd Digidol | Llythrennedd<br><br>**<u>Codi safonau a datblygu strategaethau Darllen ymhellach</u>**<br><br>• Monitro defnydd o ‘Darllen Co.’<br>• Defnyddio cwestiynu medrus ar y 5 lefel wrth wrando gydag unigolion yn darllen/ neu yn ystod sesiynau darllen cyfeiriedig:<br>❖ Llythrennol<br>❖ Ad-drefnol<br>❖ Casgliadol<br>❖ Gwerthusol<br>❖ Gwerthfawrogol<br>• BL.5 a 6 – darllen cyfeiriedig/cylchdroi - datblygu sgiliau sylfaenol darllen sgimio a sganio.<br>• Datblygu diwylliant darllen ar hyd yr ysgol trwy ddisgyblion o’r Meithrin i Flwyddyn 6 i wrando ar oedolyn yn darllen storiâu e.e. Chwedlau traddodiadol Cymru/ Chwedlau Aesop.<br>• Derbyn hyfforddiant gan Collective Learning – 27ain o Ionawr – gwerthuso a mireinio ein gweithdrefnau yn dilyn yr hyfforddiant.<br>• Derbyn Hyfforddiant CCD – Cwrs Datblygu Darllen – 12 Hydref 2024<br>• Swyddog CCD – gemau darllen ac gemau Tric a Chlic i gynorthwywyr<br>• Swyddog CCD – canllawiau darllen cyfeiriedig i staff addysgu<br><br>**<u>Llafar</u>**<br><br>• Parhau gyda’r cynllun drilio iaith a defnyddio strategaethau Myfanwy Neal.<br>• Sicrhau bod disgyblion yn ateb mewn brawddegau llawn ar bob achlysur.<br><br>**Ysgrifennu**<br><br>• Sicrhau bod safonau uchel ysgrifennu estynedig yn cael eu cynnal trwy ddefnyddio cyfres o wersi adeiladol perthnasol.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth o ffurfiau ysgrifennu greadigol a defnyddio’r testunau ffeithiol i wneud hyn<br>• Parhau i ddefnyddio strategaethau Pie Corbett o Flwyddyn 1 - 6 dwywaith yn ystod y flwyddyn.<br><br>**Rhifedd**<br><br>Adeiladu ac atgyfnerthu gweithgareddau sefydlwyd llynedd<br><br>• Parhau Cwestiynu a Herio – eisiau gweld yn amlwg yn y llyfrau ac wrth drafod gyda dysgwyr.<br><br>Ffocws yn deillio o’r profion statudol - gwella cynnydd o ran siap a gofod**.**<br><br>• Cynllunio gofalus – ymateb I ddadansoddiad data o flwyddyn 2 – 6.<br><br>Monitro defnydd Rhifedd ar draws y cwricwlwm.<br><br>**Cymhwysedd Digidol**<br><br>Uwchsgilio’r arweinydd – cyrsiau CCD<br><br>• mabwysiadu syniadau a rhoi ar waith<br>• monitro’r defnydd ar draws yr ysgol | Partner Gwella CCD<br><br>Swyddog Iaith CCD<br><br>Swyddog Mathemateg CCD<br><br>Llywodraethwyr Cyswllt<br><br>Mynychu cyfarfodydd priodol |

| | | |
|---|---|---|
| | • staff i weithredu ar y canfyddiadau<br>Dogfen Hunan Asesiad Digi 360 Safe<br>Datblygu dulliau effeithiol i gofnodi, ymateb i ddysgwyr<br>• Arweinwr I fynychu hyfforddiant CCD ac yna trafod gyda'r holl staff<br>Uwchsgilio staff<br>• Rhannu arfer/gweithdrefnau da.<br>• Hwb Digifest – staff i arwyddo lan a mynychu hyfforddiant | |